| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Ansoddeiriau |
| Disgrifiad: | Adolygu ansoddeiriau ac ymestyn geirfa'r dysgwyr. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Sgìl Rhaglen Astudio posib: | Ysgrifennu > Ysgrifennu'n gywir > Cystrawen, Atalnodi, Sillafu, Llawysgrifen |
| Testun T. Llew Jones | *Y Gelyn ar y Trên* |
| Offer angenrheidiol: | • Nofel *Y Gelyn ar y Trên*<br>• Taflen Ansoddeiriau 1<br>• Taflen Ansoddeiriau 2 |
| Trefn a awgrymir: | • Darllenwch y nofel o tud. 6 "Pan fu farw ei dad-cu' hyd at tud. 8 'Rhaid dweud wrth yr heddlu ar unwaith'.<br>• Holwch y dysgwyr beth fyddai Guto yn dweud wrth yr heddlu.<br>• Trafodwch bwysigrwydd ansoddeiriau wrth ddisgrifio.<br>• Gallwch holi pa eiriau yw'r ansoddeiriau yn y frawddeg 'Dyn mawr cryf, mewn dillad trwsiadus, wyneb coch, a gwallt cochlyd hefyd.'<br>• Ewch ati i drafod pa ansoddeiriau eraill mae'r dysgwyr yn ei gwybod.<br>• Gall y dysgwyr fynd ati i gwblhau'r taflenni ansoddeiriau. |
| Gweithgareddau gwahaniaethol: | Gellir defnyddio'r taflenni sydd fwyaf addas neu eu symleiddio ar gyfer y dysgwyr.<br><br>Os ydynt wedi cwblhau'r ail daflen gall y dysgwyr ddefnyddio thesawrws i ddarganfod mwy o ansoddeiriau grymus. |